

2015 Rhif. (Cy.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A477
(Cilfannau tua'r Gorllewin a thua'r
Dwyrain, Man i'r Gorllewin o
Landdowror, Sir Gaerfyrddin)
(Mannau Gwahardd Mynediad)
2015

Gwnaed 14 Ebrill 2015

Yn dod i rym 16 Ebrill 2015

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A477 (Sanclêr i Ddoc Penfro) ("y gefnffordd") drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 1(1), 2(1) a 2(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "Deddf 1984"), ac ar ôl ymgynghori a Phrif Swyddog Heddlu Dyfed Powys, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 16 ebrill 2015. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A477 (Cilfannau tua'r Gorllewin a thua'r Dwyrain, Man i'r Gorllewin o Landdowror, Sir Gaerfyrddin) (Mannau Gwahardd Mynediad) 2015.

Gwaharddiad

2. Ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd gael mynediad i gilfannau'r gefnffordd yn y mannau a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

R MORGAN

Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

Dyddiedig 14 Ebrill 2015

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 84(2) gan adran 168 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22) a pharagraff 61 o Atodlen 8 iddi. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672, ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

YR ATODLEN

1) Y man ymadael â chilfan tua'r gorllewin y gefnffordd ym mhen gorllewinol y gilfan, 2.0 cilometr i'r gorllewin o gyffordd y gefnffordd a'r C3236, i'r gorllewin o Landdowror, Sir Gaerfyrddin.

2) Y man ymadael â chilfan tua'r dwyrain y gefnffordd ym mhen dwyreiniol y gilfan, 2.2 cilometr i'r gorllewin o gyffordd y gefnffordd a'r C3236, i'r gorllewin o Landdowror, Sir Gaerfyrddin.

GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A477 (CILFANNAU TUA'R GORLLEWIN A THUA'R DWYRAIN, MAN I'R GORLLEWIN O LANDDOWROR, SIR GAERFYRDDIN) (MANNAU GWAHARDD MYNEDIAD) 2015

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan Adrannau 1(1), 2(1) a 2(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a ddaw i rym ar 16 Ebrill 2015.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd pob cerbyd rhag cael mynediad i fannau ymadael â chilfannau tua'r gorllewin a thua'r dwyrain y gefnffordd a leolir i'r gorllewin o Landdowror, Sir Gaerfyrddin a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn.

Yn ystod cyfnod o 6 wythnos o 14 Ebrill 2015, gellir edrych ar gopi o'r Gorchymyn, ynghyd â phlan, yn rhad ac am ddim yn ystod oriau gwaith arferol yn Swyddfa Bost Sanclêr, Bronygan, Heol y Pentre, Sanclêr, Sir Gaerfyrddin SA33 4AA neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod.

Os yw unrhyw berson yn dymuno cwestiynu dilysrwydd y Gorchymyn, neu unrhyw ddarpariaeth o'i fewn, ar y seiliau:

- a. nad yw o fewn pwerau Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984; neu
- b. bod ei fuddiannau wedi'u rhagfarnu'n sylweddol gan fethiant i gydymffurfio ag unrhyw un o ofynion y Ddeddf,

caiff y person hwnnw, o fewn 6 wythnos i 14 Ebrill 2015, wneud cais i'r Uchel Lys am atal dros dro neu

ddiddymu'r Gorchymyn neu unrhyw ddarpariaeth sydd ynddo.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad yn www.llyw.cymru (detholer: 'Deddfwriaeth', 'Is-ddeddfwriaeth', 'Offerynnau Statudol Lleol', 'Gorchmynion Traffig Parhaol', '2015').

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

YR ATODLEN

- 1) Y man ymadael â chilfan tua'r gorllewin y gefnffordd ym mhen gorllewinol y gilfan, 2.0 cilometr i'r gorllewin o gyffordd y gefnffordd a'r A3236, i'r gorllewin o Landdowror, Sir Gaerfyrddin.
- 2) Y man ymadael â chilfan tua'r dwyrain y gefnffordd ym mhen dwyreiniol y gilfan, 2.2 cilometr i'r gorllewin o gyffordd y gefnffordd a'r C3236, i'r gorllewin o Landdowror, Sir Gaerfyrddin.